Beibl i Blant

yn cyflwyno



Eliseus yn gwneud gwyrthiau

Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: Lazarus
addaswyd gan: Ruth Klassen
Cyfieithydd: Catrin Roberts
Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

BFC
PO Box 3
Winnipeg, MB R3C 2G1
Canada

©2017 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon,
ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Doedd dim digon o anifeiliaid i dynnu'r aradr. Roedd angen ychen arall. Ond doedd hynny ddim yn broblem i ffermwr ifanc o'r enw Eliseus! Beth wnaeth e? Cymryd lle yr anifail. Mae'n rhaid ei fod yn ddyn cryf, clyfar, ac yn barod i weithio'n galed.



Wrth i Eliseus aredig, daeth proffwyd Duw, Elias, heibio a galw arno. Gadawodd y dyn ifanc y fferm a mynd i weithio i Dduw. Un diwrnod, dyma Duw yn cymryd Elias i'r nefoedd mewn chwyrlwynt. O hyn ymlaen,

Eliseus fyddai proffwyd Duw yn Israel.

Roedd Eliseus yn drist fod Elias wedi gadael, ond gofynnodd i Dduw mewn gweddi am roi pŵer fel pŵer Elias iddo. Dyma fe'n codi clogyn Elias a taro dŵr yr afon gyda'r clogyn.
Dyma lwybr yn agor drwy'r afon! Roedd Duw yn mynd i helpu Eliseus.

Pan oedd Eliseus ar ei ffordd i dref o'r enw Bethel, dyma griw o fechgyn ifanc yn dechrau gwneud hwyl am ei ben a gweiddi, "Bacha hi, y moelyn!" Doedd dim ots ganddyn nhw mai gwas Duw oedd Eliseus. Digwyddodd rhywbeth ofnadwy iddyn nhw – daeth dwy arth allan o'r coed a llarpio pedwar deg dau o'r bechgyn.

Un diwrnod, dyma Eliseus yn cyfarfod gwraig weddw dlawd. Roedd hi mewn dyled, ac yn methu talu'r ddyled yn ôl. Byddai'n rhaid i'w meibion fynd i weithio fel caethweision. Dywedodd Eliseus, "Dos i fenthyg llestri gan dy gymdogion... llestri gwag." Roedd Duw yn mynd i wneud rhywbeth arbennig dros y wraig hon.



Dim ond un jar bach o olew oedd gan y wraig yn y tŷ. Ond fe wnaeth hi dywallt digon o olew i lenwi'r jariau eraill i gyd! Petai ganddyn nhw faddonau yn y dyddiau hynny, efallai y byddai Duw wedi eu llenwi nhw hefyd!! Gwerthodd y weddw yr olew i gyd ac achub ei meibion.



Fe wnaeth gŵr a gwraig arall baratoi llofft arbennig yn eu cartref ar gyfer Eliseus er mwyn iddo gael byw yno pan oedd yn pasio heibio. Roedd gwely, bwrdd, cadair a lamp yn yr ystafell.



Sut allai Eliseus dalu nôl i'r ddau am fod mor garedig. Wedi deall bod dim plant ganddyn nhw, dywedodd, "Yr adeg yma'r flwyddyn nesaf, bydd gen ti fab yn dy freichiau." Doedd y wraig ddim yn gallu credu hyn. Ond tua blwyddyn wedyn, cafodd mab ei eni iddi.



Ychydig flynyddoedd ar ôl hynny, roedd y mab yma yn gweithio gyda'i dad yn y caeau. Dyma'r bachgen yn gweiddi, "O, fy mhen," a dyma nhw'n ei gario at ei fam. Bu'n eistedd ar ei glin drwy'r bore, ac yna dyma fe'n marw. Fe wnaeth hi'n ei gario i fyny i lofft Eliseus a'i roi ar y gwely.

Pwy fyddai'n gallu helpu'r bachgen?



Glywais i chi'n dweud Eliseus? Chi'n iawn! Ar ôl cyfrwyo asyn, fe aeth y fam yn gyflym i chwilio amdano. Daeth Eliseus i'r tŷ a gweddïo ar yr ARGLWYDD. Daeth y bachgen yn ôl yn fyw.



Dywedodd y proffwyd wrth y fam, "Cymer dy fab." Allwch chi ddychmygu pa mor hapus oedd hi?!

Roedd pennaeth byddin o'r enw Naaman yn byw mewn gwlad gyfagos. Roedd e'n gryf ac yn ddewr, ond roedd e'n dioddef o glefyd heintus ar y croen.

Roedd merch ifanc o Israel wedi ei chymryd yn gaeth gan filwyr Syria. Roedd hi'n gweithio fel morwyn i wraig Naaman. Dyma hi'n dweud, "Dyna biti na fyddai'r meistr yn gallu mynd i weld y proffwyd sydd yn Israel. Gallai e ei wella."

I ffwrdd â Naaman i weld y proffwyd. Aeth ag aur, arian a dillad hardd gydag e fel anrhegion.



Daeth gwas Eliseus allan a dweud, "Dos i ymolchi saith gwaith yn afon Iorddonen a bydd dy groen di'n gwella." Dyma Naaman yn gwylltio. Allai e ddim fod wedi ymolchi yn afonydd ei wlad ei hun, Syria? Ac i ffwrdd ag e mewn tymer, gan gychwyn am adre.

Yn ffodus iawn i Naaman, dyma ei weision yn ei berswadio i wrando ar Eliseus. Felly aeth Naaman at yr afon ac ymolchi saith gwaith yn y dŵr. Ac fe gafodd Naaman y gwahanglwyf ei wella! Dechreuodd Naaman addoli'r gwir Dduw, Duw Eliseus, y Duw oedd wedi ei wella o glefyd y gwahanglwyf.

Fe wnaeth Duw ddefnyddio Eliseus hyd yn oed ar ôl iddo farw. Un diwrnod, cafodd rhyw ddyn ei gladdu yn yr ogof lle roedd Eliseus wedi ei gladdu. Pan wnaeth traed y dyn marw gyffwrdd esgyrn Eliseus, daeth yn ôl yn fyw a sefyll ar ei draed. Roedd Duw yn wir yn dangos ei bŵer mawr trwy ei was ffyddlon, Eliseus.

Eliseus yn gwneud gwyrthiau

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

2 Brenhinoedd 2-13

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16